# GWAHODDIAD

# Gŵyl Un Blaned Caerdydd / Ysgolion

## Dydd Gwener 14 Mehefin 2013:

### Canolfan Mileniwm Cymru, Bae Caerdydd

Estynnir gwahoddiad i ysgolion Caerdydd ddod i ddathlu eu cyflawniadau, a dysgu beth arall y gallent ei wneud i fyw mewn ffordd mwy 'Un Blaned'.

Dewch ynghyd ag ysgolion eraill i fynychu hanner diwrnod o weithdai ar deithio cynaliadwy, defnyddio ynni'n gallach a lleihau gwastraff, gydag ymweliad opsiynol â Gwlyptir Bae Caerdydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau.

- Bydd arddangosfa fach gan sefydliadau sy'n ymwneud â phob agwedd ar Fyw Un Blaned a Chynaliadwyedd, y gall disgyblion ac athrawon fynd o'i hamgylch yn ystod yr egwyl ginio.
- Bydd cyfle i ychydig o ysgolion ymweld â Gwarchodfa Gwlyptir Bae Caerdydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau.
- Cynhelir pob gweithdy drwy gyfrwng y Saesneg er bod rhai o'r hwyluswyr yn siarad Cymraeg.

**Ysgolion Cynradd**: gweithdai yn y bore. Gwahoddir ysgolion cynradd i ddod â hyd at 6 o blant o flynyddoedd 4 neu 5 gyda nhw. Bydd gofyn i'r plant drosglwyddo'r hyn y byddant wedi'i ddysgu i eraill pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol. Bydd y plant yn cymryd rhan mewn cyfres o weithdai byr, a sesiwn derfynol a fydd yn cynnwys seremoni wobrwyo fel y bo'n briodol.

**Ysgolion Uwchradd**: gweithdai yn y prynhawn. Gwahoddir ysgolion uwchradd i ddod â 6 i 10 o fyfyrwyr blwyddyn 9 i 10 gyda nhw a fydd yn gallu trosglwyddo'r hyn y byddant wedi'i ddysgu i eraill yn yr ysgol. Bydd sesiwn y prynhawn yn cynnwys gweithdai ar faterion sy'n gysylltiedig â Byw Un Blaned.

Caiff yr ysgolion sy'n cymryd rhan eu gwahodd i ddod â gwaith celf.

A fyddech gystal ag ateb erbyn **Dydd Gwener, 15 Chwefror 2013.**

Byddwn yn cysylltu â'r ysgolion sy'n llwyddo i gael lle erbyn dydd Gwener, 22 Chwefror.

**I gofrestru eich diddordeb anfonwch e-bost at Sarah Lart slart@caerdydd.gov.uk gan nodi:**

1. Enw'r ysgol
2. Enw athro cyswllt
3. Cyfeiriad e-bost yr athro cyswllt
4. P'un a ydych am fynd ar yr ymweliad â'r gwlyptir ai peidio

Nodwch:
Mae'r diwrnod am ddim, er y bydd rhaid i chi ddarparu eich trafnidiaeth a'ch cinio eich hun (os yw'n briodol).
Rhaid i bob ysgol sy'n bresennol ar y dydd ddod ag o leiaf un aelod o staff gyda nhw a fydd yn gyfrifol am y disgyblion ar bob adeg.
Dim ond hyn a hyn o lefydd sydd ar gael yn y gweithdai a hyd yn oed llai na hynny ar gyfer yr ymweliad â 'r Gwlyptir. Os bydd nifer yr ysgolion sy'n dangos diddordeb yn fwy na nifer y llefydd sydd ar gael yna byddwn yn tynnu enwau o het.

GŴYL UN BLANED CAERDYDD